Cyngor Cymuned Llandwrog
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
Council Minutes

15 Hydref 2018 / 15 October 2018

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 15 Hydref 2018 yn Neuadd Pentref Carmel.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 15th of October 2018 at Carmel Village Hall.

Yn bresennol / Present - 10 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones; Cyng. David M Lewis

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Helen Hughes; Cyng. Bryn Williams, Cyng. Alan Patterson

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies; Cyng. Gerwyn Owen;

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Cyng. Dyfed Williams;

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Clerc y Cyngor / Council Clerk
Huw Roberts , Cyfieithydd / Translator
Cyng. Eric M Jones, Gynghorydd Sir dros Ward Groeslon a Llandwrog/ County Councillor
Mr Bertwyn Williams – Trigolyn o'r Groeslon / Resident of Groeslon

---

18-10-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Gwyn Owen Jones.

Estynodd croeso arbennig i Huw y cyfiethydd, hefyd Cyng. Eric M Jones a Bertwyn Williams.

Croesawyd hefyd Cyng. David M Lewis o'r Fron oedd wedi bod i ffwrdd o'r Cyngor oherwydd prysurdeb ei waith.

Dywedodd fod yna raglen go sylweddol ar y noson felly aethpwyd ati yn syth

The meeting was opened by the Chairman, Cllr.Gwyn Owen Jones. He welcomed all the members as well as Huw, translator. A welcome was extended to County Councillor Eric Jones and Mr Bertwyn Williams a resident from Groeslon

He also welcomed Cllr DavidLewis, (Fron) who has been absent due to work committments

---

18-10-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Hywel J Owen, Cyng. Clive Bayley

Ward Llandwrog
Adroddwyd fod y sedd yn ward Llandwrog yn parhau yn wag. Mae gan y Rheolwr enw person fydde gan ddiddordeb yn y sedd.
The Manager reported that the vacancy in Llandwrog Ward still remains. He went on to state that he has a name of a resident who may be interested in filling the vacancy.

18-10-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - *To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid – Eitem Panel Gwaith y Clerc./ Clerks Panel Gadawodd yr ystafell am yr eitem hwn.
David Roberts, Administration & Finance Manager left the meeting for the item.

18-10-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 17 Medi 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 17 September 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-10-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-10-06 **Delwedd Dyffryn Nantlle-**

Adroddwyd fod cyfarfod 17 Hydref 2018 wedi ei ohrio gan y Cyngor Sir.

Rheolwr y Cyngor wedi rhoi cyfeiriad ebost cynrychiolwyr y Cyngor i CG I gysylltu yn uniongyrchol.

Cyng. Eddie Willcox wedi datgan diddordeb fynychu y cyfarfod nesaf.

Rheolwr i gadarnhau gyda Cyng.Hywel Owen os yw yn dymuno parhau ar y Grwp gan mai dim ond dau gynrychiolaeth sydd gan y Cyngor.

Dyweddodd EW fod gando ddau fater penodol i'w godi sef y gwasanaeth bws – yn cynnig gwelliant a gwanaeth warden.

Sylwadau Aelodau-
Cyng. Alun Wyn Jones – ddim yn sicir o'r teitl "Delwedd" . Oni dylid ei alw yn "Cyflwr Dyffryn Nantlle"? Sawl materion yn codi pryder oddi fewn y gymuned –

- Chwyn yn tyfu ar y lonydd
- Diffyg torri gwair
- Diffyg y "sweeper" bach i lanhau ymylon heolydd yn y pentrefi
- Tyllau yn y lonydd
- Draeniau wedi blocio

Gofynnodd y Cadeirydd I pob aelod gysylltu gyda'r Rheolwr os oes unrhyw fater sydd yn codi pryder yn ei wardiau I ddod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Grwp

Atgoffwyd yr aelodau gan y Rheolwr mai Uwch Swyddogion Adran Amgylchedd a Prif-ffyrdd sydd yn cynnal y cyfarfodydd hyn. O ganlyniad mae angen dod a holl faterion sy'n ymwneud ar priffyrdd , bysus, glendid strydoedd ac ati i sylw cynrychiolwyr y Cyngor hwnsydd ar y Grwp

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau anfon unrhyw faterion sydd angen sylw'r Pwyllgor trwy y cynrychiolwyr neu'r Rheolwr Gweinyddol a Chyllid.

Resolved – to ask members to send any relevant matters that need to be brought to the attention of the Group to the Manager

18-10-07 **Hen Ysgol Carmel**

Trafodwyd y matter fel nodwyd yn y Rhaglen.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitor y sefyllfa.
Resolved – to accept the information and monitor the situation.

18-10-08 **Cerrig Goffa Bryn'rodyn a Brynrhos / Memorial Headstone Bryn'rodyn & Bryn'rhos Chapels, Groeslon**

Adroddwyd gan y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid –

- Wedi diddymu archeb waith gwmnii Inigo Jones
- Wedi rhoi archeb waith I Cwmni Roberts ac Owen, Angladdwyr
- Iolo Cwmni Roberts ac Owen wedi cadahau fod y cerrig wedi ei tynnu ac wedi ei glanhau
- Yn llongyfarch aelodau Y Cyngor am gymeryd cyfrifoldeb am y cerrig ac yn ildio y ffi am y gwaith
- AWJ yn cadarnhau fod Pwyllgor y Neuadd wedi trefnu dyddiad gyda Elfyn Ellis, Adeiladwr, i osod y cerrig ar Neuadd y Groeslon gan gynnwys plac gan Mr Les Williams I gofio am ei ewythr a fu farw yn y Rhefl yn 1919.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac ysgrifeenu gair o ddiolch I Cwmni Roberts ac owen am gyflawni'r gwaith ac ildio'r ffi
Resolved – to accept the information and to write a letter of thanks to Iolo Owen of Roberts & Owen for surrendering the fee.

18-10-09 **Ffoes Brynrhos**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd ar y rhaglen.

Sylwadau Aelodau-

Gerwyn Owen - parhau yn bryderus am y sefyllfa. Siomedig gydag ymateb CG. Trigolion Cae Sarn ddim y fodlon gyda diffyg cymorth gan CG a'r aelod lleol. Angen gweithredu rŵan i lanhau y ffoes er mwyn osgoi'r llifogydd a welwyd yn ardal Caerfyrddin yr wythnos diwethaf. Rhai o drigolion Cae Sarn wedi cael costau mawr yn adnewyddu y ffoes yn ei gerddi.

David C Davies – ydi'r datblygiad Watkin Jones yn y Garreg yn gwaethygu'r sefyllfa?

Gerwyn Owen- heb ei brofi. Tanciau dan ddaear i fod i ddal dŵr glaw mewn achlysuron o stormydd.

Alun Wyn Jones - ffoes Brynrhos yn llawn pridd a gwyrddni a dim dyfnder. Mater o amser iddo gau mewn. Y cylfyrt hwn yn cymryd dŵr o sawl system - o'r Garreg ac o'r ffoes lawr o Brynrhos. Angen i CG ystyried defnyddio grym Deddf Triniaeth Tir sydd yn caniatáu i Gyngor Gwynedd gyflawni gwaith ar diroedd preifat ond fod y tirfeddiannwr yn gorfod ysgwyddo'r gost

Penderfynwyd ar y canlynol

i) Fod y Cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd defnyddio'i ddisgresiwn ac i wneud gwaith o glirio ffoes Brynrhos tuag at y cylfyrt.

ii) Fod y Cyngor yn gofyn i Gyngor Gwynedd fabwysiadu y ffoes a defnyddio grym Deddf Triniaeth Tir i orfodi perchnogion tir preifat (Stad y Goron yn benodol) fel bod y ffoes yn cael ei glirio.

iii) Fod Siân Gwenllïan a Hywel Williams yn derbyn copïau o'r ohebiaeth gan ofyn iddynt ddwyn pwysau a CG I gyflawni'r gwaith fel mater o frys.

The following wae resolved

i) That the Council asks Gwynedd Council to use its discretion to carry out the necessary works on the ditch and culvert.

ii) That the Council asks Gwynedd Council to adopt the ditch by using its powers under the Land Drainige Act which forces oweners to pay for any clearance work that is necessery.

iii) *To copy Siân Gwenllïan AM and Hywel Williams MP to the correspondence and to ask them to put pressure on the agencies to carry out whatever works that is required as a matter of urgency*

Chwarel Y Fron

18-10-10 Trafodwyd y mater fel y nodwyd ar y rhaglen.

Sylwadau Aelodau –

Cyng. Eddie Willcox - The matter for concern was that we have to accept the mineral officer has the power to grant a permission to work but just like a planning permission it is subject to certain conditions. He proposed that the Council writes to the officer or his superior and ask for the conditions linked to the permission are enforced. That is hours of and number of loads relating to traffic movements. You cannot circumvent the conditions by saying they have to make a living, this leads to anarchy and a complete disregard for elements of the law.

Bryn Williams - yn cwestiynu a ddylid rhoi'r baich ar y cwmni ac nid ar Gyngor Gwynedd?

Penderfynwyd - Roedd y Cyngor yn cefnogi cynnig EW i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y gorlwytho a gofyn iddynt orfodi yr amodau cynllunio
Resolved – to support the proposal and to write to Gwynedd Council asking them to enforce the permissions

---

18-10-11 **6 Ymgynghori ac Ymgysylltu Gyda'r Gymuned**

Trafodwyd gwaith y Panel ac yr hawl i weithredu gwariant. Awgrymodd Cyng. Alun Wyn Jones I'w alw yn Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor gan fod pawb yn aelod o'r Panel.

Penderfynwyd - Cadarnhad fod y drafodaeth ar ymgynghori ag ymgysylltu o hyn allan i gael ei alw fel Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor, gydag ond y mater ymgysylltu ar ei agenda.
Resolved - Confirmation that the discussion took place on Consulting with the Community and to call all future Consulting meetings as a Special Meeting of the Council rather than a Panel with Consulting With the Community only on the agenda.

18-10-12 **7 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Gynhaliwyd 4 Hydref 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Finance Cmmittee held on 4 October 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-10-13 **8 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-10-14 **Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Llandwrog – Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben i 31 Mawrth 2018- Issues**

Arising Report for Llandwrog Community Council – Audit for the year ended 31 March 2018

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

- ***i) Fod y Cyngor yn derbyn cynnwys yr adroddiad.***
- ***ii) Fod y Cyngor yn nodi sylwadau yr Archwilydd na ellir cofnodi taliad dan Adran 137 os oes grym statudol arall yn bodoli.***
- ***iii) Fod y Cyngor yn nodi fod taliad i Eisteddfod yn cael ei hawdurdodi dan Adran 145 o Deddf Llywodraeth Leol 1972 -darpariaeth am adloniant a chefnogaeth i'r celfyddydau***
- ***iv) Fod y Cyngor yn nodi fod taliad i clwb neu chwaraeon neu ieuenctid yn dod o dan grym Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – y grym i ddarparu cyfleusterau hamdden tu fewn neu tu hwnt i'r ardal.***
- ***v) Fod y Cyngor yn rhoi copi o'r adroddiad i'r Archwilydd Mewnol iddo ddarparu adroddiad manwl o'r gwaith yn ei archwiliad nesaf 2018-19.***

Resolved to accept the Committees recommendation as follows-

- ***i) For the Council to accept the Auditors Report.***
- ***ii) For the Council to note the Auditors comments that payments cannot be recordrd under Section 137 if another statutory powers exists.***
- ***iii) For the Council to note that payments to Eisteddfodau should be authorised under Section 145 of the Local Government Act 1972 – provision of entertainment and support for the arts***
- ***iv) For the Council to note that payments to local social, sports o'r youth clubs should be authorised under Section 19 of the 1976 Local Government Act – power to provide recreational facilities within and outside the area.***
- ***v) For the Council to present a copy of the report to the internal auditor to ensure that he completes a detailed report of the work undertaken in his next audit.***

18-10-15

Cyllideb 2018/19 – Adolygiad Ail Chwarter hyd at 30 Medi 2018
2018/19 Budget - Second Quarter Review to 30 September 2018

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

- ***i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel a nodwyd uchod***
- ***ii) Fod y Cyngor yn derbyn nad oes tanwariant wedi ei adnabod yn y cyfnod hwn ond yn adolygu y sefyllfa eto yn yr adolygiad trydydd chwarter.***
- ***iii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo i lunio cynllun blaenoriaeth gwariant ar gyfer 2018-19 i adnabod unrhyw ofyn ar y gyllideb eleni. Bydd yr ymgynghoriad gyda'r gymuned yn llunio blaenoriaeth gwariant 2019-20 a thu hwnt***

Resolved to accept the Committees recommendation as follows-

- ***i) That the Council accepts that the balances as noted are correct***
- ***ii) That the Council notes that there is no underspend at this stage but the situation will be reviewed in the third quarter monitoring report.***
- ***iii) That the Council asks the Cemeteries & Property Committee to draw a list of the Councils Spending Priorities for 2018-19 and beyond. The consultation result with the community will complete the Spending Priorities for 2019-20 and beyond.***

Cysoniad y Banc i 30 Medi 2018 / Bank Reconiliation to 30 September 2018	
Balansau'r Banc i 30 Medi/September 2018 – Balances in the Bank	(£46,813.92)
- Llai Credydwyr a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£3,615.59
+ Dyledwyr / Debtors	(£1,322.28)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Medi 2018 / Sub Total Cash at 30/9/18	**(£44,520.61**)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	dim / none

Is-gyfanswm / Sub Total	**(£44,520.61**)
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£40,343.70
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2019/ Income due to 31 March 2019	(£1,823.09)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£6,000.00)**
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG a £1,000 Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwara Less Specific Funds (£5,000 in reserve & £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	£6,000.00
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2019 ***Total Overspent (under) spend expected as at 31 March 2019***	**dim / non**

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Medi 2018 / Specific Funds as at 30 September 2018	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund – Council Policy	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£1,000.00)
Cyfanswm y Cronfeyddrhagwelir 31/3/2019 / Total Specific Funds expected at 31/3/2019	**(£6,000.00)**

18-10-16 **Cyllideb 2019-20 – Cam Cyntaf – 2019-20 Budget – Stage 1**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-**Argymhelliad i'r Cyngor**.

i) ***Fod y Cyngor yn derbyn fod y Pwyllgor Cyllid wedi cychwyn adnabod gwariant sydd ei angen gan y Cyngor ar gyfer 2019-20.***

ii) ***Fod y Cyngor yn derbyn fod y gyllideb gychwynnol yn cynnwys £4,000 ar gyfer cadw toiled y Marine ar agor yn 2018-19.***

iii) ***Fod y Cyngor yn rhoi arweiniad i'r Pwyllgor Cyllid ynglyn a cyfrannu tuag at gadw toiled y Marine ar agor yn 2019-20***

iv) ***Fod y Cyngor yn derbyn y bydd y praesept 2019-20 yn cynyddu , o bosibl chymaint â £11,000, neu 22.9% wrth gynnwys cyllideb datblygiadau o £5,000, cost arfarnu swydd y Rheolwr, cyfraniad i gynllun pensiwn y Rheolwr ,lwfansau aelodau a chwyydiant.***

.

Resolved to accept the Committees recommendation as follows-

i) ***For the Council to accept that the Committee has started to identify expenditure required in 2019-20***

ii) ***For the Council to accept that the budget, at this stage, includes £4,000 as a contribution to Gwynedd Council to keep the Marine toilet open in 2018-19***

iii) ***For the Council to give guidance to the Committee regarding the £4,000 contribution for 2019-20***

iv) ***For the Council to note that the 2019-20 precept could rise by £11,000 or 22.9% to finance the cost of evaluating the Managers salary, the contribution towards the Managers pension, members allowances and inflation.***

18-10-17 **9 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a Gynhaliwyd 10 Hydref 2018 October 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-10-18 **10 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-10-19 **Ciosg Cilgwyn / Cilgwyn Kiosc**

.

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

i) Fod y Cyngor yn nodi a derbyn fod y cytundeb rhwng y Cyngor a Mr a Mrs Whomsley o Gapel Cilgwyn wedi ei arwyddo.

Resolved to accept the Committees recommendation as follows –

i) For the Council to note that the agreement between the Council and Mr & Mrs Whomsley has now been signed by both parties.

18-10-20 **Llochesi Bws Gardd y Coleg, Carmel – Bus Shelters Community Garden , Carmel**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

i) Fod y Cyngor yn gollwng y syniad o ail-leoli'r lloches yn Safle A.
ii) Fod y Cyngor yn cymeradwyo a chefnogi'r syniad o ail-leoli'r lloches yn Safle B
iii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd gynnal y trafodaethau gyda'r Pwyllgor Pentref (sydd yn gyfrifol am Gardd y Coleg)
iv) Fod y Cyngor, os ydi'r Pwyllgor Pentref yn caniatáu ail-leoli'r lloches yn Safle B, yn gwneud ymholiadau gyda'r Adran Cynllunio I geisio darganfod a oes angen hawl cynllunio.

Resolved to accept the Committees recommendation as follows –

i) That the Council drops the idea of relocating the shelter at Site A
ii) That the Council supports and approves the idea of re-locating the shelter at Site B.
iii) For the Council to ask the Cemeteries and Property Committee to conduct the discussions with the Village Committee (who are responsible for the Garden)
iv) For the Council, if the Village Committee gives its approval to relocate to Site B, makes enquiries with the Planning Department of Gwynedd Council to seek guidence if planning approval is required.

18-10-21 ***Lloches Bws Y Fron –***

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

i) Fod y Cyngor yn cytuno gyda'r Pwyllgor nad yw y gwaith ar lloches y Fron yn flaenoriaeth
ii) Fod y Cyngor yn cynnwys y gwaith ar y Rhestr Blaenoriaethau

Resolved to accept the Committees recommendation as follows –

i) That the Council agrees that the work on the Fron Shelter is not a priority
ii) That the Council notes the work that is required and keeps it on the Spending Prorities list.

18-10-22 **Ffioedd Claddu 2019-20 – Burial Fees 2019-20**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-
Fod y Cyngor yn cynyddu'r ffioedd fel y nodir isod yn weithredol o 1 Ebrill 2019

Resolved to accept the Committees recommendation as follows –
That the Council increases the fees as noted from 1 April 2019

Yn y Gymuned / In The Community	Ffi 2018-19	Cynnydd 1.5%	Gwir Gynnydd £	Cynnydd % yn 2019-20
Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig - Arch	£175	£178	£3	1.69%
Ffi Claddu - Arch	£140	£142	£2	1.41%
Ffi Prydles Claddu Llwch	£140	£142	£2	1.41%
Ffi Hawl Claddu Llwch	£140	£142	£2	1.41%
Plentyn (at 18 oed) – ***ffi i'w dalu gan Cyngor Gwynedd nid gan y rhiant***	£140	£142	£2	1.41%
Ffi ymchwil	£46	£46	£0	0%

Tu allan i'r gymuned/ Outside the Community	Ffi 2018-19	Cynnydd 1.5%	Gwir Gynnydd £	Cynnydd % yn 2019-20
Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig - Arch	£525	x 3 tu fewn felly £534	£9	1.69%
Ffi Claddu - Arch	£420	x 3 tu fewn felly £426	£6	1.41%
Ffi Prydles Claddu Llwch	£420	x 3 tu fewn felly £426	£6	1.41%
Ffi Hawl Claddu Llwch	£140	£142	£2	1.41%
Plentyn (at 18 oed) – ***ffi i'w dalu gan Cyngor Gwynedd nid gan y rhiant***	£420	x 3 tu fewn felly £426	£6	1.41%
Ffi ymchwil	£46	£46	£0	0%

18-10-23 **Meinciau– Benches**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-
Fod y Cyngor yn cynyddu'r ffioedd fel y nodir isod yn weithredol o 1 Ebrill 2019

Resolved to accept the Committees recommendation as follows –
For the Council to purchase a bench for Bryn'rodyn cemetery

18-10-24 **Blaenoriaeth Gwariant y Cyngor–Council Spending Priorities**

Sylwadau Aelodau –

Cyng. Dyfed Williams – lloches bws, neu cysgodfan yn flaenoriaeth yn Dinas Dinlle.

Dywedodd y Rheolwr fod angen i pob aelod gysylltu os oes angen ychwanegui'r rhestr o unrhyw waith sydd angen yn ei pentrefi. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn defnyddio'r wybodaeth I lunio cyllideb 2019-20 ynghyd a canlyniad yr holiadur ymgysylltu.

Cyng. Alun Wyn Jones – angen ystyried rhannu'r gwaithfel a ganlyn
1) gwaith gellir ei ariannu trwy'r praesept blynyddol
2) gwaith cyfalaf ei natur, hynny yw sydd angen ei ariannu trwy dull gwahanol er enhraiffy benthyciad neu grantiau

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-
Fod y Cyngor yn derbyn y sgôr fel y nodir ar y rhestr Blaenoriaeth Gwariant.

Resolved to accept the Committees recommendation as follows –
For the Council to accept the scores as noted on the Spending Priorities list

Mater Brys / Urgent Item

18-10-25 **11 Yfed dan oed ac Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol yn Y Groeslon ar benwythnosau / Unsociable Behaviour & Under Age Drinking at Groeslon during the weekends**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd ar y rhaglen.

Sylwadau aelodau –

Gerwyn Owen - y plant yn aflonyddu ac yn bygwth rhai o'r trigolion y pentref ar y ffordd i Dyddyn Minsiar ac yn hwyr y nos wrth ddod lawr y pentref

Helen Hughes - plant yn targedu gwahanol bentrefi wedi gweld y broblem hon yng Ngharmel yn y gorffennol. Fyddai'r heddlu yn dod i fynnu ac yn hel y plant adref. Pam nad yw hyn yn digwydd rŵan?

Rheolwr y Cyngor - wedi cysylltu gyda PCSO Julie Holland. Ar ddallt nad yw yn gwasanaethu'r ardal hon bellach. PCSO Sammi Williamson wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod heno. Ddim yn gweithio ar Nos Lun.

Gofynnwyd i'r aelod lleol, Cyng. Eric M.Jones i ddiweddaru'r Cyngor.

EMJ –

- mater difrifol, yn broblem fawr yn y Groeslon
- criw mawr o bobol ifanc yn yfed alcohol ar dir Tyddyn Minsiar, Y Groeslon
- yn aflonyddu trigolion y Groeslon, rhai yn taflu pethau ar gartrefi , ac yn tramwyo trwy gerddi yn hwyr y nos
- yn digwydd pob Nos Wener , gyda phlant ifanc yn cyrraedd Y Groeslon o Ddyffryn Nantlle gyda bws yn cario "rucksacks" yn llawn alcohol
- 45 o blant a phobol ifanc yn cerdded i fynnu o'r Groeslon am Dyddyn Minser Nos Wener, 12 Hydref
- yn aflonyddu trigolion lleol, cerdded trwy gerddi
- yn creu llanast yn ardal Penbonc, gwydrau wedi malu, poteli a condoms
- rhieni parchus y gymuned yn danfon plant i'r safle gydag alcohol
- heddlu ddim yn rhoi cymorth. PCSO wedi adrodd dim adnoddau a ddim yn gweithio ar Nos Wener.
- EMJ wedi gweld car plisman yn mynd heibio'r plant Nos Wener 12fed ond yr heddlu heb wneud dim
- Yn cyfarfod yn fuan gydag Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu (fel rhan o'i swyddogaeth fel Aelod o Gyngor Gwynedd)
- Yn ddiolchgar o gefnogaeth y Cyngor Cymuned

Alun Wyn Jones - o'r farn fod angen cysylltu gyda Chomisiynydd yr Heddlu gan ofyn am gyfarfod gydag Uwch Uwch Swyddog nid PCSO. Ddim yn hapus gyda safbwynt yr heddlu.

Penderfynwyd ar y canlynol

i) Fod y Cyngor yn cysylltu gyda Chomisiynydd yr Heddlu gan ofyn am gyfarfod cyhoeddus gydag Uwch Swyddog Heddlu, nid PCSO.

ii) Fod y Cyngor yn anfon copi o'r ohebiaeth I Siân Gwenlian AC a Hywel Williams AS gan ofyn iddynt ddwyn pwysau ar yr heddlu i weithredu.

The following was resolved

i) For the Council to contact the Police Commisioner for North Wales Police asking for a meeting with a Senoir Police Officer not a PCSO.

ii) For the Council to send a copy of the correspondence to Siân Gwenlian Am a Hywel Williams MP asking them to bear weight on the Police to act on the matter.

Gohebiaeth / Communication Received

18-10-26 **12 Cyngor Gwynedd - Biniau Halen / Salt Bins**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd ar y rhaglen.

Sylwadau Aelodau –

AP - ymgysylltu gyda'r gymuned sydd yn mynd i benderfynu prynu'r gwasanaeth ai peidio

EW - sawl bin halen sydd yn y gymuned? Rheolwr - heb gael ateb pendant gan Gyngor Gwynedd ond oddeutu 112.

DCD - Gaeaf caled o'n Blaenau eto yn ôl y rhagolygon tywydd. O'r farn y dylid ystyried prynu'r gwasanaeth.

DW - ydi'r biniau yn y llefydd priodol? Oes angen llenwi pob bin halen? Angen bod yn wyliadwrus ac o'r farn mai dyletswydd Cyngor Gwynedd ydi llenwi'r biniau.

Penderfynwyd oedi ar y penderfyniad hyd nes y bydd canlyniad yr ymgysylltu wedi dod i law.
Resolved – to delay any decision until the result of the questionnaire is revealed

18-10-27 **13 Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft PACGA – Chwefror 2019**
IRPW Draft Annual Report Consultation - February 2019

Trafodwyd y mater fel nodwyd ar y Rhaglen

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a nodi'r cynnwys
Resolved – to accept and note the information

18-10-28 **14 Cyngor Gwynedd – Arolwg Cyhoeddus Hydref 2018**
Gwynedd Council – Public Survey October 2018

Trafodwyd y mater fel nodwyd ar y Rhaglen

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

18-10-29 **15 Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Mon**
Joint Planning Policy Unit – Anglesey & Gwynedd

Trafodwyd y mater fel nodwyd ar y Rhaglen

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

18-10-30 **16 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Hydref 2018 / October 2018**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2

Full detais of the Planning Applications
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1

18-10-31
Cais Rhif / Application Number - **C18/0800/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Uwchlaw'r Rhos, Penygroes, LL54 7UE**
Bwriad / Proposal - **Codi estyniad cefn deulawr / Erection of two storey rear extension**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-10-31
Cais Rhif / Application Number - **C18/0875/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Dinlle Caravan Park, Dinas Dinlle LL55 5TW**
Bwriad / Proposal - **Cais llawn i resymoli safle pwll nofio presennol trwy ddymchwel adeiladau presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys toiledau, campfa, storfa ag ystafell offer a chodi estyniad i gynnwys adnoddau ychwanegol. Full application to rationilse existing swimming pool site by demolishing existing buildings, construction of new buildings, to include new toilets, gym, store and plant room and a new extension to include additional facilities.**

Penderfyniad y Cyngor – gohirio penderfyniad – dim gwrthwynebiad o safbwynt y cais ar gyfer dymchwel adeiadau ond tydi'r cais ddim yn eglur ar beth yw'r bwriad gyda'r fllod scoping syddwedi ei gynnwys yn y cais. Y Cyngor angen fwy o wybodaeth
Council Decision – deferred . Council raised no objection to the demolition etc but tequires more information regarding the fllod scoping that is included with the application.

Materion Ariannol / Financial Matters

18-10-32 **17 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Medi 2018 – Income Received September 2018**

Manylion / Details	Cyfanswm
Huw John Jones – Ffi Claddu / Burial Fees	(£315.00)

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information

18-10-33 **18 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Hydref 2018 – Clerks Salary October 2018			Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Hydref 2018– Income Tax October 2018			Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc– Hydref 2018– Clerks Allowance October 2018			Uniongyrchol/Direct
Microsoft – Trwydded "Office" Licence	£59.99	£59.99	101837
Huw Roberts – Cyfieuthu Mis Hydref / October translation x 3	£162.00	£162.00	101838
Viking Direct – Offer Swyddfa / Office Equipment	£49.92	£59.90	101839

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Clerc i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Clerk to relaease all the payments

18-10-34 **19 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (19 Tachwedd 2018 / 19 November 2018)**

Cyng. Alan Patterson , Carmel – gwartheg ar y strydoedd

Cyng. Gerwyn Owen, Groeslon - Cae Chwarae Ysgol Bro Llifon.
Gwaith wedi ei gyflawni ond nid i'r safon disgwyliwyd. Corff Llywodraethwyr yr ysgol yn trafod y mater yr wythnos hon.

Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon – Diffribireilwr yn Y Groeslon

Cyng. Gwyn Owen Jones, Y Fron a Cyng. Bryn Williams, Carmel – cwn yn rhydd ac yn lladd defaid

---

18-10-35 **20 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings***

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Tachwed / November Full council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 19 Tachwedd 2018 / Monday 19 November 2018
Amser / Time - 7.30 yr hwyr
Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Y Pentref Y Groeslon

Cyfarfod / Meeting – **Panel Ymgysylltu / Consulting Panel**
Dyddiad / Date – 17 Hydref – 17 October
Amser / Time 7 pm
Lleoliad / Venue – Canolfan Y Fron

Y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr Panel y Clerc gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Fe wnaeth y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid adael yr ystafell ar gyfer yr eitem hwn

18-10-36 **21 Derbyn Cofnodion Panel Y Clerc a gynhaliwyd 20 Medi 2018 fel rhai cywir *- To accept the minutes of the Clerks Conditions of Empolyment Panel , held on 20 September 2018, as a true record***

18-10-37 **22 Materion yn Codi o'r Cofnodion *– Maters Arising from the Minutes***

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record

18-10-38 **Swydd Ddisgrifiad / Job Description**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-
- fod y Cyngor yn nodi fod y gweithgor yn addasu a diweddaru y Swydd Ddisgrifiad

Resolved to accept the Committees recommendation as follows
- that the Council notes that the working group is amending (updating) the job description

18-10-39 **Cytundeb Gwaith y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Clerks Contract of Employment**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-
- fod y Cyngor yn nodi fod y gweithgor yn addasu a diweddaru y Cytundeb Gwaith.

Resolved to accept the Committees recommendation as follows
– that the Council notes that the working group is updating the contract of employment .

18-10-40 **Cyflog y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Salary**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-

i) ***Fod y Cyngor yn gosod y swydd ar Graddfa LC2 fel a nodir ar Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflogau ac Amodau Gwaith Clercod Cynghorau Lleol yn Lloegr a Chymru 2004 (a gytunwyd rhwng Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac a fabwysiadwyd gan Un Llais Cymru).***
ii) ***Fod y Cyngor yn ymddiried yn y gweithgor i adnabod y raddfa/pwyntiau cyflog oddi fewn LC2 trwy ddefnyddio y templed arfarnnu.***

Resolved to accept the Committees recommendation as follows

i) ***For the Council to place the salary on Grade LC2 as noted in the National Agreement on Salaries & Conditions of Service of Local Council Clerks in England & Wales 2004 (agreed between The National Association of Local Councils & The Society of Local Council Clerks & adopted by One Voice Wales.***
ii) ***That the Council asks the Working Group to identify which grade/salary points within LC2 by using the evaluation template.***

18-10-41 **23 Derbyn Cofnodion Panel Y Clerc a gynhaliwyd 4 Hydref 2018 fel rhai cywir** ***- To accept the minutes of the Clerks Conditions of Empolyment Panel , held on 4 October 2018, as a true record***

18-10-42 **24 Materion yn Codi o'r Cofnodion** ***– Maters Arising from the Minutes***

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-10-43 **Swydd Ddisgrifiad / Job Description**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn-
-fod y Cyngor yn nodi fod y gweithgor yn derbyn y Swydd Ddisgrifiad
Resolved to accept the Committees recommendation as follows
- that the Council accept the amended Job Description

18-10-44 **Cytundeb Gwaith y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Contract of Employment**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Panel fel a ganlyn-
- fod y Cyngor yn derbyn y Gytundeb Gwaith addasiedig.

Resolved to accept the Committees recommendation as follows – that the Council accept the updated Contract of Employment .

18-10-45 **Cyflog y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / The Administration & Finance Manager Salary**

Penderfynwyd derbyn argymhellion y Panel fel a ganlyn-

i) ***Fod y Cyngor yn derbyn yr ystyriaethau a roddwyd gan y Panel ar osodiad /pwyntiau ar y templed.***
ii) ***Fod y Cyngor yn derbyn arfarniad y swydd, yn defnyddio y templed, sy`n dod a graddfa y swydd (fel ag y mae ei disgrifiad presennol) i LC2 – pwynt 26 – 32***

Resolved to accept the Committees recommendation as follows

i) ***That the Council accepts the consideration given by the Panel to the layout / points on the template.***
ii) ***That the Council accepts the appraisal of the post, using the template, which brings the grade of the job (in its current description) to LC2 - point 26 - 32***

Cafwyd trafodaeth wedyn ar ddyddiad effeithiol y newid i'r raddfa cyflog. Cytunwyd fod y mater adolygu y cyflog wedi ei godi ddechrau y flwyddyn, ac ymhellach cytunwyd fod yr agweddau gwaith dan sylw yn bodoli bryd hynny.

Penderfynwyd - y byddai y dyddiad effeithiol yn cael ei osod fel 1af Ebrill 2018.
Resolved - that the effective date of the change would be 1st April 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05 yr hwyr / The meeting ended 9:05 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	